



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy ar Ddatblygiadau Newydd

Rhan 1 - Cynigion yr ymgynghoriad

Rhan 2 - Y dull a gynigir

Rhan 3 - Opsiynau ar gyfer cynnal a chadw Systemau Draenio
Cynaliadwy ac opsiynau ariannu

Dyddiad cyhoeddi: **19 Mai 2017**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **11 Awst 2017**

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn am ddull arfaethedig Llywodraeth Cymru o weithredu systemau draenio cynaliadwy effeithiol ar ddatblygiadau newydd. Yn fwyaf penodol, mae hwn yn gyfle i drafod cynnwys Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (y Ddeddf) nad yw wedi cael ei chychwyn. Mae hefyd yn gyfle i drafod y Rheoliadau a'r Gorchmynion, gan gynnwys y Safonau Cenedlaethol ar gyfer SuDS, sydd eu hangen er mwyn gweithredu'r Ddeddf.

Sut i ymateb

Llenwch a dychwelwch yr holiadur ar ddiwedd y ddogfen ymgynghori os gwelwch yn dda.

Fel arall, gallwch ebostio neu anfon unrhyw sylwadau i'r cyfeiriad yn is i lawr ar y dudalen.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw: 11 Awst 2017

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae fersiwn ar-lein o'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb i'w gweld yn:

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/>

Mae'r wybodaeth berthnasol isod i'w gweld yn:

<http://llyw.cymru/topics/environmentcountryside/epq/flooding/drainage>

- Safonau Cenedlaethol anstatudol a argymhellir ar gyfer draenio cynaliadwy yng Nghymru, a
- Sustainable Drainage Systems on New Developments: Analysis of evidence including costs and benefits of SuDS construction and adoption (Environmental Policy Consulting, Ionawr 2017)

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Cangen Dŵr
Llywodraeth Cymru
Spa Road East
Llandrindod
Powys LD1 5HA

Ebost: water@wales.gsi.gov.uk

Ffôn: 03000 258302

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) ar Ddatblygiadau Newydd

Mynegai

RHAN 1 – Cynigion yr ymgynghoriad

Pwrpas yr ymgynghoriad	5
Ble rydym ni nawr	6
Pam y mae angen newidiadau	7
Asesu'r effaith a chynigion	9
Fframwaith deddfwriaethol	10
Amseriad	10
Rôl grŵp cynghori SuDS	11

RHAN 2 – Y dull arfaethedig

Prif ddarpariaethau Atodlen 3 i'r Ddeddf	12
Draenio cynaliadwy	13
Safonau Cenedlaethol	13
Y Corff Cymeradwyo SuDS	14
Cymeradwyo SuDS	14
Ffioedd am benderfyniad ynglŷn â cheisiadau draenio gan gorff cymeradwyo SuDS	19
Mabwysiadu SuDS	20
Bond methu â chyflawni	22
Gorfodaeth	23
Apeliadau	24

RHAN 3 – Opsiynau ar gyfer cynnal a chadw SuDS a'r opsiynau ariannu a allai eu cefnogi

Trefniadau cynnal a chadw: trosolwg	25
Opsiynau cynnal a chadw posibl	26

Atodiadau

Atodiad 1 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol y cam ymgynghori

Atodiad 2 – Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

Atodiad 3 – Y broses gymeradwyo SuDS â mewnbwn gan y Corff Cymeradwyo SuDS

Atodiad 4 – Grŵp Cynghori SuDS, rhestr o'r sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli

RHAN 1 – Cynigion yr Ymgynghoriad

Pwrpas yr ymgynghoriad

- 1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn am ddull arfaethedig Llywodraeth Cymru o weithredu systemau draenio cynaliadwy effeithiol (SuDS) ar ddatblygiadau newydd. Mae'r Asesiad Effaith yn Atodiad 1 yn amlinellu tri dull posibl o wneud hyn y bydd angen eu hystyried, gan gynnwys yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio gennym ni. Rydym hefyd yn ceisio eich barn am:
 - Newidiadau posibl i'r ddeddfwriaeth sylfaenol (Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010), ac
 - Is-ddeddfwriaeth a safonau sydd eu hangen er mwyn gweithredu'r Ddeddf.
- 1.2 Mae'r Strategaeth Ddŵr i Gymru yn amlinellu ein polisi cenedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a'n hymrwymiad i ystyried cychwyn Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (y Ddeddf).
- 1.3 Mae'r prif ddarpariaethau sy'n ymwneud â draenio cynaliadwy yn Atodlen 3 i'r Ddeddf yn gwneud defnyddio draenio cynaliadwy yn orfodol ym mhob datblygiad newydd ac yn darparu mecanwaith ar gyfer mabwysiadu a chynnal a chadw. Er mwyn annog mwy o ddefnydd o SuDS ar ddatblygiadau newydd, cyhoeddassom gyfres o Safonau Cenedlaethol anstatudol a argymhellir¹ ar gyfer draenio cynaliadwy yn Ionawr 2016. Fodd bynnag, yn ôl yr awdurdodau lleol mae eu statws anorfodol a'r diffyg llwybr clir i fabwysiadu wedi cyfyngu ar eu heffeithiolrwydd.
- 1.4 Rydym felly'n ystyried beth yw'r ffordd orau o gynyddu nifer y SuDS effeithiol ac amlbwrpas ar bob datblygiad newydd. Yn yr Asesiad Effaith rydym yn ystyried tri opsiwn sylfaenol:
 - Dim newid
 - Gweithredu Atodlen 3
 - Dibynnu ar gynllunio
- 1.5 Wrth ddatblygu'r opsiynau hyn, rydym wedi ystyried nifer o wahanol ddulliau gweithredu, ond rydym wedi dod i'r casgliad mai gweithredu Atodlen 3 sy'n cynnig y ffordd orau o gyflawni ein hamcanion polisi. Er hyn, rydym yn cydnabod bod llawer o newidiadau wedi digwydd yn y cyd-destun economaidd a deddfwriaethol er 2010.
- 1.6 Yn fwyaf arbennig, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Deddf 2015) yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ystyried nodau amrywiol ar gyfer gweithredu polisi. Credwn y gall SuDS amldefnydd, sydd wedi eu cynllunio'n dda ddarparu ystod ehangach o fanteision na datrysiadau draenio confensiynol, er enghraifft drwy ddefnyddio seilwaith gwyrdd sy'n cyfrannu tuag at greu lleoedd.

¹ <http://llyw.cymru/topics/environmentcountryside/epq/flooding/drainage>

- 1.7 Yn ychwanegol at hyn, mae'r pwysau ariannol sydd ar awdurdodau lleol a datblygwyr wedi cynyddu ac mae angen i ni ystyried hyn wrth weithredu'r opsiwn rydym yn ei ffafrio. Mae Rhan 3 yr ymgynghoriad yn nodi opsiynau ar gyfer cynnal a chadw SuDS a'r opsiynau ariannu a allai eu cefnogi.
- 1.8 O ganlyniad, rydym hefyd yn ceisio eich barn am yr angen am ddiwygiadau i Atodlen 3 o'r Ddeddf er mwyn dangos yn well sut y caiff ei gweithredu yng Nghymru.
- 1.9 Er mwyn gweithredu Atodlen 3, bydd angen i ni gyflwyno is-ddeddfwriaeth sy'n cynnwys manylion prosesau fel gwneud cais, cymeradwyo, apeliadau a sefydlu strwythurau ffioedd. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig cyfle cynnar i ystyried y ddeddfwriaeth a'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer SuDS sydd eu hangen er mwyn gweithredu'r Ddeddf.

Ble rydym ni nawr

- 1.10 Mae llifogydd dŵr wyneb yn broblem ddifrifol. Cyfeirir ato yn ein Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol² fel un o'r prif ffactorau sy'n achosi llifogydd mewn cartrefi. Mae'r effaith ar ddinasyddion a chymunedau a'r gost i economi Cymru yn fawr iawn. Mae perygl llifogydd ar gynnydd oherwydd newid yn yr hinsawdd a threfoli. Yn fwyaf arbennig, mae llifogydd lleol, oherwydd gorlwytho systemau draenio a charthffosydd sydd â chyfyngiadau maint, yn peri mwy a mwy o bryder. Dan delerau Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mae'r Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yn gyfrifol am berygl llifogydd lleol sy'n cynnwys perygl sy'n deillio o ddŵr wyneb.
- 1.11 Gall dŵr wyneb ffo fod yn bwysig fel ffynhonnell llygredd gwasgaredig. Mae'r niwed a all gael ei achosi i ddŵr daear ac i'n hafonydd o ganlyniad i ddŵr wyneb ffo llygreddig yn cynyddu â phob datblygiad newydd.
- 1.12 Yn ychwanegol at hyn, gall ansicrwydd ynglŷn â dylunio a mabwysiadu draeniau dŵr wyneb ar gyfer datblygiadau newydd ddal datblygiad yn ôl. Collir costau cyfle hefyd os nad yw dylunio y draeniad yn darparu manteision niferus (er enghraifft hamdden ac amwynder) yn ychwanegol at y dasg sylfaenol o reoli dŵr wyneb.
- 1.13 Pe bai'n cael ei chychwyn, byddai Atodlen 3 yn sicrhau ei bod yn ofynnol i ddraeniau dŵr wyneb ar gyfer datblygiadau newydd gydymffurfio â Safonau Cenedlaethol gorfodol ar gyfer SuDS. Mae hefyd yn nodi ei bod yn ofynnol i systemau draenio dŵr wyneb gael eu cymeradwyo gan Gorff Cymeradwyo SuDS cyn y gall gwaith adeiladu â goblygiadau draenio ddechrau. Cyn belled bod y Safonau Cenedlaethol yn cael eu bodloni, byddai'n ofynnol i'r Corff Cymeradwyo SuDS fabwysiadu a chynnal a chadw SuDS a gymeradwywyd sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo.

² <http://llyw.cymru/docs/desh/publications/120412nssummarycy.pdf>

- 1.14 Fel mesur interim, yn Ionawr 2016 cyhoeddasom ar sail anstatudol ein Safonau Cenedlaethol a argymhellir³ ar gyfer dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw systemau draenio cynaliadwy.
- 1.15 Yn Ionawr 2017 cyhoeddasom gasgliadau adroddiad ymchwil⁴ gan EPC i 'Systemau Draenio Cynaliadwy ar Ddatblygiadau Newydd' (ymchwil EPC) a oedd yn asesu perfformiad cyffredinol SuDS, gan gyfeirio'n fwyaf arbennig at gostau a manteision yng Nghymru.

Pam y mae angen newidiadau

- 1.16 Mae angen ystyried ein hymrwymiad i ystyried gweithredu Atodlen 3 i'r Ddeddf yng nghyd-destun newidiadau a gwaith ymchwil mwy diweddar sy'n sail i'n hamcanion polisi.

Ymrwymadau Llywodraeth Cymru

- 1.17 Mae Deddf 2015 wedi cryfhau dull gweithredu Cymru mewn cysylltiad â datblygu cynaliadwy. Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd foesol a statudol sydd wedi ei hymgorffori yn ein hamcanion llesiant er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Deddf 2015 yn nodi ei bod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru roi mwy o ystyriaeth i'r tymor hir, gan weithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd er mwyn atal problemau cyn iddynt godi.
- 1.18 Mae ein hamcanion llesiant yn ganolog i "Symud Cymru Ymlaen", ein rhaglen lywodraethu sy'n nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Rydym wedi ymrwymo i reoli dŵr yn ein hamgylchedd yn well, ynghyd â rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru ddyletswydd o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu cadernid ecosystemau. Mae cyflawni'r ddyletswydd hon yn hanfodol er mwyn sicrhau hyfywedd hirdymor ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd.
- 1.19 Gellir defnyddio SuDS yn effeithiol mewn ardaloedd gwledig a threfol i gefnogi datblygiad newydd, gan leihau perygl llifogydd a llygredd. Mae gweithredu SuDS sy'n cydymffurfio â Safonau Cenedlaethol yn amcan allweddol er mwyn rheoli perygl llifogydd yng Nghymru. Nid yw defnyddio SuDS i ddraenio dŵr wyneb yn ddewis arall yn lle systemau draenio â phibellau. Mae SuDS yn darparu nifer o fanteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd hirdymor sy'n mynd yn llawer pellach na'r manteision sy'n deillio o ddefnyddio draeniau confensiynol.

Ein hamcan polisi yw darparu SuDS amlbwrpas, effeithiol mewn datblygiadau newydd a fydd yn cael eu cynnal a'u cadw drwy gydol oes y datblygiadau y maent yn eu gwasanaethu. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n hanfodol ein bod yn galluogi'r rhai hynny sy'n ymwneud â

³ <http://llyw.cymru/topics/environmentcountryside/epq/flooding/drainage/?lang=cy>

⁴ Sustainable Drainage Systems on New Developments: Analysis of evidence including costs and benefits of SuDS construction and adoption, Environmental Policy Consulting, Ionawr 2017.

dylunio, adeiladu a chynnal a chadw'r SuDS i weithio mewn partneriaeth.

Canfyddiadau adroddiad ar Systemau Draenio Cynaliadwy mewn Datblygiadau Newydd

1.20 Roedd adroddiad EPC yn cynnwys nifer o ganfyddiadau allweddol:

- Mae cefnogaeth gyffredinol ac eang i gychwyn Atodlen 3 i'r Ddeddf neu broses debyg a fyddai'n gwneud SuDS o ansawdd da, sy'n cydymffurfio â Safonau Cenedlaethol, yn orfodol ar ddatblygiadau newydd.
- Gwneir defnydd helaeth o SuDS ar ddatblygiadau newydd yng Nghymru yn barod. Er hyn, mae'r rhain yn amrywio o ran ansawdd a pherfformiad, ac ar hyn o bryd SuDS 'caled' yw'r rhan fwyaf ohonynt (yn cynnwys mesurau tanddaearol a phyllau arafu yn bennaf), ac nid oes cynifer o SuDS wedi'u 'tirlunio' (â llystyfiant) sydd â'r potensial i gynnig nifer o fanteision.
- Mae costau cyfalaf datrysiadau SuDS wedi'u tirlunio sydd o ansawdd da, ac sydd wedi'u cynllunio'n dda bob amser yn llai na'r rhai ar gyfer datrysiadau confensiynol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r costau gweithredu cyffredinol a'r costau cynnal a chadw hefyd yn is. Ar gyfartaledd, gallai defnyddio SuDS arbed dros £9,000 am bob cartref newydd mewn costau cyfalaf yng Nghymru.
- Mae gweithrediad a pherfformiad cydrannau draenio cynaliadwy ar lefel y ddaear yn weladwy ac, o ganlyniad, maent at ei gilydd yn symlach ac yn haws i'w gweithredu, eu monitro a'u cynnal a'u cadw.

Ein hamcan polisi yw gwneud SuDS effeithiol o ansawdd da, sy'n cydymffurfio â Safonau Cenedlaethol, yn orfodol ar ddatblygiadau newydd.

- Un o'r prif ffactorau sy'n atal datblygwyr rhag defnyddio SuDS wedi'u tirlunio, sydd o ansawdd da, yw ansicrwydd ynglŷn â mabwysiadu a gweithredu a chynnal a chadw rheolaidd. Defnyddir trefniadau mabwysiadu ac ariannu amrywiol ar hyn o bryd, a phenderfynir ynglŷn â'r rhain mewn gwahanol ffyrdd. Mae angen i'r dull a ddefnyddir fod yn seiliedig ar broses glir ond hyblyg sy'n ymwneud â chynllunio, mabwysiadu a chyfrifoldebau ar gyfer trefniadau pendant hirdymor ar gyfer cynnal a chadw ac ariannu.

Ein hamcan polisi yw darparu eglurder, sicrwydd a chysondeb, er mwyn sefydlu trefniadau cynhwysfawr, ynglŷn â defnyddio SuDS ar ddatblygiadau newydd ac ynglŷn â threfniadau mabwysiadu ac ariannu ar gyfer gweithredu a chynnal a chadw rheolaidd.

- Mae angen ystyried sut y gellir diwygio'r broses gynllunio er mwyn sicrhau bod rhaid ystyried a darparu'n ffurfiol ar gyfer 'draenio' a SuDS

sydd wedi cael eu dylunio'n briodol, a'u cymeradwyo a'u mabwysiadu o ddechrau'r broses cynllunio datblygu lleol, ac ym mhob cam o gynigion datblygu.

Ein hamcan polisi yw integreiddio SuDS yn llawnach ym mhob cam o'r broses cynllunio datblygu lleol.

Asesu'r Effaith

1.21 Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol y cam ymgynghori i'w weld ynghlwm yn Atodiad 1 yr ymgynghoriad hwn. Mae'n egluro;

- ar bwy y bydd y cynigion yn effeithio a sut,
- cost, manteision a risgiau'r gwahanol opsiynau sy'n cael eu hystyried,
- crynodeb o'r sail dystiolaeth gan gynnwys manylion yr opsiynau sy'n cael eu hystyried a rhinweddau perthynol pob opsiwn,
- y sail resymegol dros ymyriad Llywodraeth Cymru,
- cadarnhad o'r dull sy'n cael ei ffafrio (h.y. y dull a amlinellir yn Rhan 2), ac
- asesiadau effaith penodol.

1.22 Mae'r Asesiad Effaith yn dangos mai'r opsiwn sydd fwyaf tebygol o sicrhau'r budd mwyaf o weithredu SuDS yw SuDS gorfodol, ac y byddai'r budd hwn yn cael ei sicrhau drwy gychwyn Atodlen 3 i'r Ddeddf. Yn fyr, mae'r dadansoddiad yn awgrymu y gallai defnyddio SuDS wedi'u tirlunio, sy'n cydymffurfio â Safonau Cenedlaethol gorfodol, ar ddatblygiadau newydd, gan gynnwys y 110,000 o gartrefi newydd y bwriedir eu codi yng Nghymru erbyn 2021, arbed bron i £1 biliwn mewn costau adeiladu cyfalaf i Gymru a chynhyrchu budd o dros £20 miliwn y flwyddyn.

1.23 Mae'r Asesiad Effaith ac ymchwil EPC hefyd yn dod i'r casgliad bod angen cychwyn Atodlen 3 ond nad yw hynny'n ddigon ar ei ben ei hun i hwyluso cynnydd yn y defnydd o SuDS o ansawdd da ar ddatblygiadau newydd.

1.24 **O ganlyniad, rydym yn cynnig bod y dasg o weithredu SuDS ar ddatblygiadau newydd yn cael ei chyflawni drwy ddull cyfun:**

- **Rydym yn cynnig ystyried a oes angen newidiadau i Atodlen 3 i'r Ddeddf er mwyn gwneud y darpariaethau'n fwy cyson â'n hamcanion polisi.**
- **Yna byddwn yn gwneud trefniadau i gychwyn Atodlen 3 i'r Ddeddf, a fydd yn golygu bod SuDS yn orfodol ar ddatblygiadau newydd. Rydym felly'n manteisio ar y cyfle hwn hefyd i drafod agweddau allweddol ar Reoliadau a Gorchmynion, gan gynnwys Safonau Cenedlaethol gorfodol ar gyfer SuDS, sydd eu hangen er mwyn gweithredu'r Ddeddf.**

1.25 Rydym hefyd yn bwriadu trafod integreiddio SuDS yn llawnach â chynllunio datblygu lleol ym mhob cam o'r broses. Bydd cyfle i wneud hyn fel rhan o

adolygiad Llywodraeth Cymru o ganllawiau cynllunio TAN15 y disgwylir y bydd yn cael ei gynnal yn ddiweddarach eleni.

Rydym wedi seilio ein cynigion ar y dystiolaeth a amlinellwyd yn ein Hasesiad Effaith.

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'n cynigion? Gofynnwn i chi roi eglurhad gyda'ch ateb.

Cwestiwn 2: A oes gennych dystiolaeth ychwanegol a allai newid argymhellion Asesiad Effaith Rheoleiddio'r cam ymgynghori? Rhowch eglurhad gyda'ch ateb.

Fframwaith Deddfwriaethol

- 1.26 Dan adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 19 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd i ddeddfu mewn cysylltiad â chyflenwi dŵr, rheoli adnoddau dŵr, ansawdd dŵr a rheoli perygl llifogydd a chymhwysedd i gynrychioli defnyddwyr dŵr a charthffosydd. Mae SuDS, sy'n ymdrin â draenio dŵr wyneb at ddibenion rheoli perygl llifogydd, yn dod o fewn y cymhwysedd hwn. Cefnogir y sefyllfa hon gan Ddeddf Cymru 2017 fel yr amlinellir yn yr adran 108A newydd (cymhwysedd deddfwriaethol).
- 1.27 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â draeniad dŵr wyneb yng Nghymru yn unig. Mae hyn yn wahanol i bob agwedd arall ar garthffosiaeth a draenio sy'n cael eu darparu gan ymgymerydd carthffosiaeth dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr, mae Gweinidogion Cymru'n gyfrifol am reoleiddio ymgymerydd dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu yn gyfan gwbl neu yn bennaf yng Nghymru ac mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyfrifoldeb am gwmnïau dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu yn gyfan gwbl neu yn bennaf yn Lloegr. O ganlyniad, ar gyfer gwasanaethau draenio sy'n cael eu darparu gan yr ymgymerydd dŵr a charthffosiaeth, mae'r rhannau hynny o Gymru sy'n cael eu gwasanaethu gan Severn Trent Water yn cael eu rheoleiddio gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac mae'r rhannau hynny o Loegr sy'n cael eu gwasanaethu gan Dŵr Cymru yn gyfrifoldeb i Weinidogion Cymru.
- 1.28 Mae Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn defnyddio'r term "Gweinidog" i olygu Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol. Defnyddir y term "Gweinidog" yn y ddogfen hon i olygu Gweinidogion Cymru.

Amseriad

- 1.29 Bydd cynigion ar gyfer cymeradwyo a mabwysiadu gorfodol yn cael eu gweithredu ar ôl cychwyn Adran 32 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Gan fod hwn yn gyfle i drafod cynnwys Atodlen 3 i'r Ddeddf byddwn yn adolygu'r amserlen ar gyfer cychwyn yn ei holl agweddau gyda'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

1.30 Bydd manylion unrhyw newidiadau a allai gael eu cynnig gennym i Atodlen 3 er mwyn datblygu'r polisi hwn yn destun ymgynghoriad yn y dyfodol. Bydd Rheoliadau a Gorchmynion, a Safonau Cenedlaethol gorfodol ar gyfer SuDS sydd eu hangen er mwyn gweithredu'r Ddeddf ac y byddai angen iddynt gael eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn rhan o'r ymgynghoriad hwn yn y dyfodol.

Rôl Grŵp Cynghori SuDS

1.31 Er mwyn darparu gwybodaeth i ni wrth i ni ddatblygu ein polisi sefydlasom Grŵp Cynghori SuDS. Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr rhanddeiliaid allweddol sydd â diddordeb mewn cynllunio, dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw draeniau cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd. Mae rhestr lawn o'r sefydliadau a'r sectorau sy'n cael eu cynrychioli yn y Grŵp i'w weld yn Atodiad 4.

1.32 Roedd gan y Grŵp rôl arwyddocaol wrth gyfrannu tuag at astudiaeth ymchwil ac adroddiad EPC a darparu cyngor technegol ac arbenigol sy'n sail i'n hamcanion polisi datganedig a'r dull a gynigir.

1.33 Hoffem ddiolch i aelodau'r Grŵp am y cyngor arbenigol a'r arweiniad a roddwyd ganddynt fel sail i ymchwil EPC ac wrth i ni ddatblygu'r opsiynau sy'n cael eu cynnig.

RHAN 2 – Y Dull a Gynigir

Rydym yn cynnig ystyried a oes angen newidiadau i Atodlen 3 i'r Ddeddf er mwyn gwneud y darpariaethau'n fwy cyson â'n hamcanion polisi.

Ar ôl hynny, ein bwriad yw symud ymlaen â threfniadau ar gyfer cychwyn Atodlen 3 i'r Ddeddf, â diwygiadau neu heb ddiwygiadau, a fydd yn golygu bod SuDS yn orfodol ar ddatblygiadau newydd. O ganlyniad, rydym hefyd eisiau trafod agweddau allweddol ar Reoliadau a Gorchmynion, gan gynnwys Safonau Cenedlaethol gorfodol ar gyfer SuDS, a fyddai'n cael eu gwneud dan y Ddeddf.

- 2.1 Mae hwn yn gyfle i drafod y dull a gynigir. Bydd cynnwys manwl unrhyw newidiadau deddfwriaethol a roddir ar waith a rheoliadau a gorchmynion a wneir dan y Ddeddf yn destun ymgynghoriad yn y dyfodol.
- 2.2 Mae copi o'r darpariaethau presennol fel y maent wedi eu nodi yn Atodlen 3 i'r Ddeddf, nad yw wedi cychwyn, i'w weld ynghlwm yn Atodiad 2.

Prif ddarpariaethau Atodlen 3 i'r Ddeddf

- 2.3 Rydym yn cynnig gweithredu prif ddarpariaethau Atodlen 3 i'r Ddeddf, fel y maent wedi eu nodi isod:
 - sefydlu awdurdodau unedol yng Nghymru fel y corff cymeradwyo SuDS a fydd yn gyfrifol am gymeradwyo systemau draenio newydd cyn y gall gwaith adeiladu gychwyn.
 - mynnu bod y corff cymeradwyo SuDS lle bo'n briodol, yn mabwysiadu systemau draenio sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo, gan ei wneud yn gyfrifol am sicrhau bod system ddraenio dŵr wyneb sy'n cael ei mabwysiadu gan y corff cymeradwyo SuDS yn cael ei chynnal a'i chadw yn unol â'r Safonau Cenedlaethol gorfodol.
 - diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 i wneud yr hawl i gysylltu dŵr wyneb â charthffosydd cyhoeddus yn amodol ar gymeradwyaeth gan y corff cymeradwyo SuDS bod y system ddraenio yn bodloni'r Safonau Cenedlaethol gorfodol.
 - mynnu bod Gweinidogion yn gwneud is-ddeddfwriaeth yn darparu hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau cymeradwyo a mabwysiadu gan y corff cymeradwyo SuDS; gorfodi'r angen am gymeradwyaeth; a ffioedd cymeradwyo.
 - sicrhau bod modd gwneud is-ddeddfwriaeth yn ymwneud â materion amrywiol sy'n gysylltiedig â chymeradwyo a mabwysiadu.
- 2.4 Mae siart llif o'r broses gymeradwyo SuDS â mewnbwn gan gorrff cymeradwyo i'w weld ynghlwm yn Atodiad 3.

Draenio Cynaliadwy

- 2.5 Mae paragraff 2 o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn diffinio draenio cynaliadwy fel rheoli dŵr glaw gyda'r nod o:
- Leihau difrod o ganlyniad i lifogydd
 - Gwella ansawdd dŵr
 - Diogelu a gwella'r amgylchedd
 - Diogelu iechyd a diogelwch, a
 - Sicrhau sefydlogrwydd a chryfder systemau draenio

Rydym eisiau bod yn siŵr bod y diffiniad hwn yn dal yn briodol i Gymru, felly rydym yn ceisio eich barn am unrhyw newidiadau y mae'n bosibl y bydd eu hangen.

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno â'r diffiniad presennol ar gyfer draenio cynaliadwy? Os nad ydych, awgrymwch unrhyw newidiadau a rhowch eich rhesymau.

Safonau Cenedlaethol ar gyfer SuDS

- 2.6 Mae paragraff 5 o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i ddatblygiadau newydd gael eu gwasanaethu gan system ddraenio sy'n bodloni Safonau Cenedlaethol gorfodol. Credwn fod Safonau Cenedlaethol gorfodol yn hollbwysig er mwyn sicrhau SuDS o ansawdd da ar ddatblygiadau newydd a fydd yn goroesi.
- 2.7 Hoffem glywed am eich profiad o weithredu'r Safonau Cenedlaethol anstatudol a argymhellir a gyhoeddwyd gennym yn Ionawr 2016. Yn fwyaf penodol, hoffem wybod a yw'r safonau, yn eich barn chi, yn helpu i sicrhau SuDS sy'n gynaliadwy ac yn fforddiadwy.
- 2.8 Mae ein Safonau Cenedlaethol presennol yn cynnwys set o egwyddorion ar gyfer draenio cynaliadwy, sy'n ategu'r safonau. Mae'r rhain yn cynnwys materion fel manteision amwynder a bioamrywiaeth, diogelwch hirdymor a dibynadwyedd a fforddiadwyedd. Hoffem glywed eich barn am yr egwyddorion hyn.
- 2.9 Hoffem egluro bod angen i ymgeiswyr sefydlu gofynion cynnal a chadw a chostau cysylltiedig eu system ddraenio arfaethedig a nodi sut y bydd yn cael ei hariannu. O ganlyniad, rydym yn cynnig cynnwys yr ychwanegiad isod yn adran Egwyddorion y Safonau Cenedlaethol:

“Yn ogystal, dylid datblygu cynllun cynnal a chadw a nodi a chytuno ynglŷn â'r modd o'i ariannu am y cyfnod y disgwylir y bydd yn weithredol.”

Dylai draenio ar gyfer dŵr wyneb ffo fod yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy.
Cwestiwn 4: O'ch profiad chi, a yw'r Safonau Cenedlaethol a gyhoeddwyd gennym yn Ionawr 2016 yn cyflawni hyn? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno â'r egwyddorion ar gyfer draenio cynaliadwy sydd wedi'u cynnwys yn y Safonau Cenedlaethol anstatudol a argymhellir? Os nad ydych, rhowch awgrymiadau ychwanegol neu wahanol os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno bod angen i ymgeiswyr sefydlu gofynion cynnal a chadw eu system ddraenio arfaethedig a nodi sut y bydd yn cael ei hariannu yn gynnar yn y broses? Rhowch resymau dros eich ateb os gwelwch yn dda. A yw'r ychwanegiad arfaethedig i'r Egwyddorion yn ddigonol?

Y corff cymeradwyo SuDS

- 2.10 Mae paragraff 6 (1) a (2) o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn rhoi'r cyfrifoldeb am gymeradwyo SuDS i awdurdodau unedol. Yng Nghymru mae pob awdurdod lleol yn awdurdod unedol.
- 2.11 Credwn fod partneriaeth rhwng awdurdodau lleol yn hanfodol er mwyn darparu SuDS effeithiol a llwyddiannus yn yr hirdymor. Rydym yn ceisio eich barn ynglŷn â sut y gellir cyflawni hyn.
- 2.12 Mae awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu llawer o wasanaethau, megis addysg. Rydym yn ceisio eich barn ynglŷn â'r angen i annog awdurdodau lleol i gyflawni dyletswydd y corff cymeradwyo SuDS ar y cyd, neu i hwyluso hynny.
- 2.13 Dan baragraff 6 (3) gall Gweinidogion Cymru benodi corff arall fel corff cymeradwyo ym mhob ardal neu mewn un neu ragor o ardaloedd penodedig. Hoffem glywed eich barn ynglŷn â pha gorff arall, os yn briodol, ddylai gael ei benodi yn lle awdurdod lleol i gymeradwyo a mabwysiadu SuDS.

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno â'n barn fod angen i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth er mwyn ymarfer a chyflawni'r swyddogaeth corff cymeradwyo SuDS? Awgrymwch sut y gellid cyflawni hyn os gwelwch yn dda?

Cwestiwn 8: Pa gorff arall, os yn briodol, ddylai gael ei benodi i gymeradwyo a mabwysiadu SuDS? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Cymeradwyo SuDS

Beth fyddai angen cael ei gymeradwyo gan gorff cymeradwyo

- 2.14 Dan baragraff 7 o Atodlen 3 i'r Ddeddf, byddai angen i'r rhan fwyaf o'r mathau o waith adeiladu sydd â goblygiadau draenio gael eu cymeradwyo gan gorff cymeradwyo SuDS. Mae Atodlen 3 yn nodi bod gwaith adeiladu'n golygu creu adeiladau neu strwythurau eraill sy'n gorchuddio tir ac a fydd yn effeithio ar allu'r tir hwnnw i amsugno dŵr glaw.

- 2.15 Dan baragraff 7 (4)(a) o Atodlen 3 i'r Ddeddf gall Gweinidogion Cymru wneud gorchmynion ar gyfer dosbarth penodol o waith sydd i gael ei drin fel gwaith adeiladu, neu nad yw i gael ei drin fel gwaith adeiladu.
- 2.16 Rydym yn cynnig y dylai cymeradwyaeth fod yn ofynnol ar gyfer pob gwaith adeiladu sydd angen caniatâd cynllunio, ac sydd â goblygiadau o ran draenio, ar wahân i anheddau sengl. Er enghraifft, byddai angen caniatâd cynllunio i adeiladu dau dŷ neu ffatri, ac mae ganddynt oblygiadau o ran draenio, felly bydd angen iddynt gael eu cymeradwyo. Ni fyddai angen i geisiadau cynllunio nad oes ganddynt oblygiadau o ran draenio gael eu cymeradwyo gan gorff cymeradwyo SuDS.
- 2.17 Mae rhai mathau o waith adeiladu nad oes angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer (datblygu a ganiateir), er y gallant fod â goblygiadau sylweddol o ran draenio. Rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i waith adeiladu nad oes angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer ond sy'n golygu codi adeilad neu strwythur arall sy'n gorchuddio darn o dir ag arwynebedd o 100 metr sgwâr gael ei gymeradwyo gan gorff cymeradwyo SuDS. Byddai hyn yn caniatáu i'r rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu sy'n defnyddio hawliau datblygu a ganiateir barhau, ond efallai y byddai angen i waith adeiladu sylweddol â goblygiadau o ran draenio gael ei gymeradwyo gan gorff cymeradwyo SuDS.

Beth na fyddai angen cael ei gymeradwyo gan gorff cymeradwyo SuDS

- 2.18 Mae paragraff 7 (3) o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn nodi bod gwaith sydd angen caniatâd datblygu dan Adran 31 o Ddeddf Cynllunio 2008 (prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol) wedi ei eithrio o'r angen am gymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo SuDS. Mae penderfyniadau ynglŷn â phrosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol yn cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol⁵.
- 2.19 Dan baragraff 7 (4)(b) o Atodlen 3 i'r Ddeddf gall Gweinidogion Cymru wneud gorchmynion ynglŷn â'r math o waith sydd i'w drin fel gwaith â goblygiadau o ran draenio neu nad yw i'w drin fel gwaith o'r fath mewn amgylchiadau penodol.
- 2.20 Rydym yn cynnig y byddai angen eithrio tri math o ddatblygiad o'r gofynion sy'n ymwneud â chymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo SuDS:
- Cefnffyrdd a thraffyrdd sy'n cael eu rheoli gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru.
 - Gwaith adeiladu sy'n cael ei wneud gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel y bwrdd draenio mewnol wrth gyflawni ei swyddogaethau dan Ddeddf Draenio Tir 1991.
 - Adeiladu rheilffordd.

⁵ <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/>

Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno â'n cynigion ynglŷn â beth ddylai gael ei gymeradwyo gan gorff cymeradwyo SuDS a beth rydym yn cynnig ei eithrio? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Ceisiadau am gymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo SuDS

2.21 Mae trafodaethau cyn gwneud cais, â phwyslais ar weithio mewn partneriaeth er mwyn dod â'r rhai sy'n ymwneud â'r broses at ei gilydd yng ngham cynharaf datblygu safle, yn hollbwysig er mwyn gweithredu SuDS yn llwyddiannus. Mae angen annog datblygwyr i gael trafodaethau cyn gwneud cais gyda'r awdurdod lleol fel corff cymeradwyo SuDS, awdurdod cynllunio lleol, awdurdod llyfogydd lleol arweiniol a phartion eraill sydd â diddordeb, megis ymgylgoreion statudol. Byddai hyn yn sicrhau bod modd sefydlu'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau draenio ar gyfer y safle a pharatoi cynllun ar gyfer y datblygiad a fydd yn nodi'r opsiynau SuDS gorau. Bydd hyn yn ei dro yn helpu i atal oedi cyn cael cymeradwyaeth ac yn lleihau costau yn yr hirdymor.

2.22 Mae paragraff 8 o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn darparu dau drywydd ar gyfer ceisiadau am gymeradwyaeth:

- Yn syth i'r corff cymeradwyo SuDS (a elwir yn gais annibynnol):
 - lle nad yw'n ddatblygiad fel y mae wedi ei ddiffinio yn y Deddfau Cynllunio, neu
 - lle nad oes angen caniatâd cynllunio, e.e. datblygu a ganiateir, neu
 - os yw'r datblygwr yn dewis gwneud cais am gymeradwyaeth draenio a chaniatâd cynllunio ar wahân.
- Drwy'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) (a elwir yn gais cyfun):
 - os oes angen caniatâd cynllunio, gall y cais gael ei gyfuno â chais am ganiatâd cynllunio a'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI). Byddai'r cais yn cael ei anfon i'r corff cymeradwyo gan yr ACLI, a byddai penderfyniad y corff cymeradwyo yn cael ei hysbysu i'r ymgeisydd drwy'r ACLI.

Dan y Ddeddf, rhaid i'r ACLI ystyried cymeradwyo SuDS cynnig datblygu ar wahân i'r broses gymeradwyo cynllunio.

Cymeradwyo gydag amodau

2.23 Mae paragraff 11(2) o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn rhoi pwerau i'r corff cymeradwyo SuDS roi cymeradwyaeth gydag amodau. Yn fwyaf arbennig, gallai amodau ymwneud ag addasiadau i gynllun draenio arfaethedig, talu bond methu â chyflawni, archwiliadau yn ystod gwaith adeiladu ac ar ôl y gwaith adeiladu a ffioedd cysylltiedig a/neu dalu ffi yn ymwneud â gwaith a wnaethpwyd gan y corff cymeradwyo mewn cysylltiad â'i ddyletswyddau cymeradwyo a mabwysiadu.

Rhaid i'r corff cymeradwyo SuDS naill ai:

- roi cymeradwyaeth cyn belled ei fod yn fodlon y bydd y system ddraenio os bydd yn cael ei hadeiladu fel y bwriedir yn cydymffurfio â Safonau

- Cenedlaethol ar gyfer Draenio Cynaliadwy, neu ei gwrthod, os nad yw'n fodlon.

- 2.24 Dan baragraff 11 (4) o Atodlen 3 i'r Ddeddf rhaid i'r corff cymeradwyo SuDS hysbysu'r ymgeisydd, neu yn achos cais cyfun, yr awdurdod cynllunio, ynglŷn â'r canlyniad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl penderfynu ynglŷn â'r cais.
- 2.25 Dan baragraff 11 (5) o Atodlen 3 i'r Ddeddf gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau yn ymwneud â phenderfynu ynglŷn â cheisiadau i'w cymeradwyo, gan gynnwys amseriad, gweithdrefn a chanlyniadau peidio â chydymffurfio â hwy. Ein bwriad yw gwneud rheoliadau ar y materion hyn.

Amserlen ar gyfer cymeradwyo

- 2.26 Rydym yn cynnig cynnwys mewn rheoliadau derfynau amser penodedig yn nodi erbyn pryd y mae'n rhaid i'r corff cymeradwyo SuDS benderfynu ynglŷn â cheisiadau am gymeradwyaeth (boed yn geisiadau annibynnol neu gyfun). Wrth wneud hyn rydym eisiau sicrhau nad yw'r terfynau amser yn achosi oedi i ddatblygiadau.
- 2.27 Rydym yn awgrymu bod rhaid i'r corff cymeradwyo SuDS, mewn achosion lle mae angen Asesiad Effaith Amgylcheddol⁶, benderfynu ynglŷn â chais am gymeradwyaeth cyn pen 12 wythnos a chyn pen 7 wythnos ar gyfer ceisiadau eraill. Mae'r ddaau derfyn hyn o leiaf un wythnos yn llai na'r rhai dan y system gynllunio. Er mwyn sicrhau hyblygrwydd rydym yn cynnig y dylai'r corff cymeradwyo SuDS a'r ymgeisydd ym mhob achos allu cytuno i ymestyn yr amserlen cyn belled nad yw'r cyfnodau penodedig wedi dod i ben.
- 2.28 Pe bai'r corff cymeradwyo yn methu â chadw at y graddfeydd amser hyn, rydym yn cynnig y dylid barnu bod y cais heb gael ei benderfynu. Rydym hefyd yn cynnig y dylai'r ymgeisydd yn yr amgylchiadau hyn gael hawl i apelio i dribiwnlys annibynnol.
- 2.29 Os bydd cais yn cael ei wrthod, rydym yn cynnig y dylai'r rheoliadau nodi ei bod yn ofynnol i'r corff cymeradwyo roi'r rhesymau dros wrthod. Rydym hefyd yn cynnig y dylai'r ymgeisydd gael hawl i apelio i dribiwnlys annibynnol.

Cwestiwn 10: A ydych yn cytuno â'n terfynau amser penodedig arfaethedig ar gyfer pryd y mae'n rhaid i'r corff cymeradwyo SuDS benderfynu ynglŷn â cheisiadau am gymeradwyaeth? Os nad ydych, cynigiwch derfynau amser eraill a rhowch resymau os gwelwch yn dda.

⁶ Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017

Ymgylgoreion Statudol

2.30 Mae paragraff 11(3) o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i'r corff cymeradwyo SuDS ymgynghori â chyrrff penodedig os gallai cais effeithio ar yr ymgynghorai hwnnw.

Yr ymgylgoreion yw:

- unrhyw ymgymerwr carthffosiaeth, y bwriedir i'r system gysylltu â'i garthffos gyhoeddus,
- Cyfoeth Naturiol Cymru, os yw'r system ddraenio yn ymwneud â rhyddhau dŵr i gwrs dŵr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol,
- yr awdurdod priffyrdd perthnasol ar gyfer ffordd y mae'r corff cymeradwyo'n credu y gallai gael ei heffeithio,
- Glandŵr Cymru (yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd), os yw'r corff cymeradwyo'n credu y gallai'r system ddraenio ryddhau dŵr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i ddyfrffordd neu o dan ddyfrffordd sy'n cael ei rheoli ganddynt.

2.31 Roedd y Ddeddf yn cynnwys cyfeiriad at fyrddau draenio mewnol fel ymgylgoreion lle gallai'r dŵr sy'n cael ei ryddhau effeithio ar gwrs dŵr cyffredin yn ardal y bwrdd. Yng Nghymru mae pob bwrdd draenio mewnol yn gweithredu yn unol â chylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd.

2.32 Byddem yn cynghori'r corff cymeradwyo SuDS a'r ymgylgoreion statudol i ddatblygu perthnasoedd gwaith da, gan fod hynny'n hollbwysig yn ein barn ni er mwyn cael SuDS effeithiol.

2.33 Dan baragraff 11 (5) o Atodlen 3 i'r Ddeddf, rydym yn cynnig nodi mewn rheoliadau ei bod yn ofynnol i'r corff cynghori SuDS roi 21 diwrnod i ymgylgoreion statudol ymateb i'r cais rhag bod y broses gymeradwyo'n cael ei dal yn ôl. Bwriadwn i hyn fod yn berthnasol i geisiadau annibynnol a chyfun fel ei gilydd.

2.34 Os na dderbynnir ymateb, rydym yn awgrymu y gellir ystyried hyn fel 'dim'. Er mwyn darparu hyblygrwydd cynigiwn y dylai'r ymgynghorai a'r corff cymeradwyo SuDS ym mhob achos allu cytuno yn ysgrifenedig i ymestyn yr amserlen.

2.35 Awgrymwn y dylid caniatáu i ymgylgoreion ddewis cyflwyno cyngor sefydlog a fyddai'n eu galluogi i ganolbwyntio ar achosion sydd angen sylw arbennig. Nid ydym yn cynnig cynnwys dyletswydd ar y corff cymeradwyo SuDS i ystyried ymatebion ymgylgoreion statudol, gan fod hyn ymhlyg yn y ddyletswydd i ymgynghori. Dan baragraff 11 (4)(b) o Atodlen 3 i'r Ddeddf rhaid i'r corff cymeradwyo SuDS hysbysu unrhyw un yr ymgynghorir ag ef ynglŷn â chanlyniad y cais.

Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno â'n cynnig i osod terfynau amser, sef bod y corff cymeradwyo SuDS yn rhoi 21 diwrnod i'r ymgylgoreion statudol ymateb? Os nad ydych, rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Ffioedd am benderfyniad ynglŷn â cheisiadau draenio gan gorff cymeradwyo SuDS

- 2.36 Mae paragraffau 11(2) (d) ac 13 o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn nodi y gall y corff cymeradwyo SuDS godi ffi yn seiliedig ar adennill costau ar gyfer pob cais am gymeradwyaeth. Ni fwriedir i'r ffi gymeradwyo gyfateb i'r costau sy'n dod i ran ymgylgoreion statudol wrth ddarparu mewnbwn nac unrhyw drafodaethau cyn gwneud cais.
- 2.37 Dan baragraff 13 gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â ffioedd ar gyfer ceisiadau i'w cymeradwyo.
- 2.38 Cynigiwn fod yn rhaid i'r ffi gael ei chyflwyno yr un pryd â'r cais am gymeradwyaeth i'r system ddraenio.
- 2.39 Rydym wedi ystyried a fyddai'n briodol gosod strwythur ffioedd cenedlaethol ar gyfer cymeradwyo ceisiadau a fyddai'n debyg i ffioedd ar gyfer ceisiadau cynllunio. Gan gymryd y bydd hon yn drefn newydd, ac er mwyn cael cysondeb, rydym yn awgrymu y dylai'r ffi gymeradwyo gael ei phennu yn genedlaethol gan Weinidogion Cymru. Rydym hefyd yn cynnig y dylai'r ffi genedlaethol fod yn amodol ar adroddiadau blynyddol gan Awdurdodau Lleol.
- 2.40 Awgrymwn fod ffioedd wedi'u pennu'n genedlaethol ar gyfer y cyfnod cychwynnol hwn yn cael eu codi ar sail swm penodol ar gyfer pob cais ynghyd â swm ychwanegol a fyddai'n cael ei bennu gan faint yr ardal adeiladu fel a ganlyn.

£350 am bob cais ynghyd â [hyd at uchafswm o £7,500]:

Am bob 0.1 ha hyd at 0.5 ha⁷	£70
Am bob 0.1 ha rhwng 0.5 ha ac 1 ha	£50
Am bob 0.1 ha rhwng 1 ha a 5 ha	£20
Am bob 0.1 ha dros 5 ha	£10

Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth yn yr Asesiad Effaith a thrafodaethau gyda'r Grŵp Cynghori SuDS ac maent yn ystyried tasgau gweinyddol y corff cymeradwyo SuDS ac amser swyddogion.

- 2.41 Dan y system gynllunio, mae cynghorau cymuned naill ai'n cael gwneud ceisiadau cynllunio am ddim neu'n talu cyfraddau is. Rydym yn cynnig darparu trefniadau tebyg ar gyfer ffioedd cyrff cymeradwyo SuDS.

Cwestiwn 12: A ydych yn cytuno â'n cynnig i bennu ffi genedlaethol?
Os nad ydych, rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 13: A ydych yn cytuno â'n cynnig ar gyfer y gyfradd ffioedd?
Os nad ydych, rhowch resymau os gwelwch yn dda a chynigiwch gyfraddau eraill.

⁷ Dylai unrhyw ffracsiwn o 0.1 hectar o arwynebedd safle gael ei gywiro i fyny i'r 0.1 hectar agosaf.

Cwestiwn 14: A ydych yn cytuno â'n cynnig y dylai ffioedd yn y dyfodol gael eu pennu yn amodol ar adroddiad blynyddol gan Awdurdodau Lleol er mwyn i'r cyrff cymeradwyo SuDS allu darparu gwybodaeth am gostau real? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Ffioedd eraill

2.42 Gall y corff cymeradwyo SuDS godi tâl am drafodaeth cyn gwneud cais, os yw'n dymuno, dan bwerau a roddwyd iddo yn Adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003⁸.

2.43 Rydym yn cynnig y dylai darpariaeth ar gyfer ffioedd hefyd gael ei gwneud mewn rheoliadau dan baragraff 13 o Atodlen 3 i'r Ddeddf gan Weinidogion Cymru ar gyfer:

- ceisiadau i amrywio cymeradwyaeth, ar gyfer ceisiadau sy'n cael eu hailgyflwyno i'r corff cymeradwyo SuDS, ond y dylai'r rhain fod ar gyfradd ostyngol os cyflwynir dau gais neu ragor yn nodi cynigion gwahanol gyda'i gilydd.
- ceisiadau sydd angen cael eu cymeradwyo gan fwy nag un corff cymeradwyo SuDS gan fod yr ardal adeiladu yn rhychwantu mwy nag un ardal corff cymeradwyo SuDS er mwyn sicrhau bod y costau ar gyfer pob corff cymeradwyo SuDS yn cael eu hadennill.
- archwiliad o'r system ddraenio gan y corff cymeradwyo SuDS, os yw hyn yn digwydd ar unrhyw adeg yn y broses adeiladu SuDS.
- amgylchiadau pan mae angen ad-dalu ffioedd ceisiadau, fel bod ffioedd gwneud cais yn cael eu had-dalu yn achos ceisiadau annilys neu os nad yw'r corff cymeradwyo SuDS yn penderfynu ynglŷn â'r cais o fewn y graddfeydd amser a nodwyd.

Mae trefniadau tebyg yn bodoli ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n cael eu gwneud dan y system gynllunio.

Cwestiwn 15: A ydych yn cytuno â'n cynnig y dylai'r corff cymeradwyo SuDS godi tâl am y gweithgareddau hyn? Os nad ydych, rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Mabwysiadu SuDS

2.44 Mae paragraff 17 o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i'r corff cymeradwyo SuDS fabwysiadu systemau draenio sy'n bodloni'r tri amod isod:

- Amod 1 yw bod y system ddraenio wedi cael ei hadeiladu yn unol â'r gymeradwyaeth,

⁸ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/26/section/93>

- Amod 2 yw bod y system ddraenio wedi cael ei hadeiladu a'i bod yn gweithio yn unol â'r gymeradwyaeth, ac
- Amod 3 yw bod y system ddraenio yn system draenio cynaliadwy.

2.45 Mae paragraff 23 o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn galluogi'r corff cymeradwyo SuDS i fabwysiadu ohono'i hun neu ar gais y datblygwr. Ein bwriad yw gwneud darpariaeth dan baragraff 23 (4)(a) a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gorff cymeradwyo SuDS benderfynu ynglŷn â cheisiadau cyn pen 8 wythnos oni bai fod y corff cymeradwyo SuDS a'r datblygwr wedi cytuno ar gyfnod hwy. Pe bai'r corff cymeradwyo SuDS yn methu â chadw at yr amserlen hon, bydd y ddyletswydd i wneud penderfyniad a hysbysu'r ymgeisydd ynglŷn â'r penderfyniad hwnnw'n parhau. Yn yr amgylchiadau hyn, rydym yn cynnig y dylid cymryd bod y cais wedi cael ei wrthod. Bydd hyn yn caniatáu i ymgeisydd gyflwyno apêl os yw'n dymuno.

2.46 Os yw'r corff cymeradwyo SuDS yn mabwysiadu ohono'i hun, rhaid iddo hysbysu'r datblygwr ynglŷn â'i benderfyniad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

2.47 Ein bwriad yw gwneud darpariaeth mewn rheoliadau fel bod yn rhaid i'r hysbysiad ynglŷn â'r penderfyniad i fabwysiadu gynnwys y rheswm dros y penderfyniad a dyddiad y penderfyniad.

Cwestiwn 16: A ydych yn cytuno â'n hawgrym y dylai'r corff cymeradwyo SuDS benderfynu ynglŷn â chais i fabwysiadu cyn pen 8 wythnos? Os nad ydych, rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Diffiniad o SuDS ar gyfer mabwysiadu

2.48 Mewn cysylltiad ag amod 3 rydym yn cynnig diffinio system draenio cynaliadwy mewn rheoliadau wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru fel y rhannau hynny o system ddraenio nad ydynt yn gyfrifoldeb i ymgwymerwr carthffosiaeth yn unol â chytundeb dan adran 104 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Dylai hyn roi sicrwydd ac eglurder ynglŷn â pha rannau o system ddraenio y gall y corff cymeradwyo SuDS eu mabwysiadu a pha rannau y gall yr ymgwymerwr dŵr a charthffosiaeth eu mabwysiadu.

Cwestiwn 17: A ydych yn cytuno â'r diffiniad a gynigir o "system draenio cynaliadwy" at ddibenion dyletswydd y corff cymeradwyo SuDS i fabwysiadu? Os nad ydych, rhowch ddiffiniad arall os gwelwch yn dda.

Eithriadau i'r ddyletswydd i fabwysiadu

2.49 Mae paragraffau 18 ac 19 o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn eithrio systemau draenio eiddo sengl ac unrhyw ran o system ddraenio sy'n ffordd sy'n cael ei chynnal a'i chadw ag arian cyhoeddus o ddyletswydd fabwysiadu'r corff cymeradwyo SuDS.

- 2.50 Mae awdurdodau priffyrdd⁹ eisoes yn gyfrifol am ddraeniad a gwaith cynnal a chadw ar ffyrdd sy'n cael eu cynnal a'u cadw ag arian cyhoeddus. Byddai'r corff cymeradwyo SuDS yn cael ei eithrio rhag mabwysiadu unrhyw ran o SuDS y byddai'r awdurdod priffyrdd eisoes yn gyfrifol am ei chynnal a'i chadw, h.y. pantiau ar ochrau ffyrdd ac arwynebau athraidd. Rhaid i'r awdurdod priffyrdd weithredu yn unol â'r dyluniad draenio a gymeradwywyd, gan gynnwys y trefniadau cynnal a chadw, gan gydymffurfio â'r Safonau Cenedlaethol.
- 2.51 Mae gan y corff cymeradwyo SuDS ddyletswydd i fabwysiadu unrhyw SuDS mewn ffordd breifat neu ar ochr ffordd breifat. Pe bai'r ffordd yn dod yn ffordd sy'n cael ei chynnal a'i chadw ag arian cyhoeddus, yna byddai'r awdurdod priffyrdd yn dod yn gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw.
- 2.52 Rhaid i ymgymwrwr carthffosiaeth dderbyn unrhyw ddŵr wyneb o ffordd sy'n cael ei chynnal a'i chadw ag arian cyhoeddus sy'n unol â draeniad a gymeradwywyd gan y corff cymeradwyo SuDS o ganlyniad i baragraff 16(3) o Atodlen 3 i'r Ddeddf, sy'n diwygio Adran 115 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991¹⁰. Bwriad y darpariaethau hyn yw annog awdurdodau priffyrdd i fabwysiadu systemau draenio sy'n gwasanaethu ffyrdd sy'n cael eu cynnal a'u cadw ag arian cyhoeddus, hyd yn oed â chysylltiadau trydydd parti.

Cwestiwn 18: A ydych yn cytuno â'r eithriadau a restrwyd i ddyletswydd y corff cymeradwyo SuDS i fabwysiadu? Os nad ydych, rhowch eglurhad os gwelwch yn dda.

Mabwysiadu gwirfoddol

- 2.53 Dan baragraff 21 o Atodlen 3 i'r Ddeddf, gall y corff cymeradwyo SuDS fabwysiadu system draenio cynaliadwy yn wirfoddol, fel sy'n cael ei ddiffinio gan y Gweinidog, lle nad oes ganddo ddyletswydd i wneud hynny. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i'r corff cymeradwyo SuDS ddewis mabwysiadu system draenio cynaliadwy mewn amgylchiadau penodol os yw'n credu y byddai hynny'n briodol. Gall hyn er enghraifft gynnwys:

- System draenio cynaliadwy sy'n bodoli'n barod, a allai fod wedi ei hadeiladu yn unol â'r Safonau Cenedlaethol ond nid o reidrwydd, a
- System draenio cynaliadwy sy'n gwasanaethu eiddo sengl.

Amlinellir y broses ar gyfer mabwysiadu gwirfoddol ym mharagraff 24 o Atodlen 3 i'r Ddeddf.

Bond methu â chyflawni

- 2.54 Gall y corff cymeradwyo SuDS ddweud bod angen bond methu â chyflawni fel un o amodau cymeradwyo. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i'r corff cymeradwyo y

⁹ Awdurdod priffyrdd yw'r enw a roddir i gorff sy'n gyfrifol am weinyddiaeth ffyrdd cyhoeddus. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn awdurdod priffyrdd ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd lleol yn eu hardaloedd.

¹⁰ Para 16(3) o Atodlen 3 i'r Ddeddf

bydd y SuDS yn cael ei hadeiladu yn unol â'r Safonau Cenedlaethol a bydd yn sicrhau bod prynwyr yn y dyfodol yn cael eiddo sydd â system ddraenio briodol. Dan baragraff 12(2) o Atodlen 3 i'r Ddeddf, ni ellir tynnu'r bond i lawr oni bai fod y corff cynghori SuDS yn ardystio nad yw'r system draenio cynaliadwy:

- wedi cael ei hadeiladu yn unol â'r cynigion a gymeradwywyd, neu;
- yn debygol o gael ei chwblhau.

2.55 Gall y bond methu â chyflawni fod o unrhyw werth cyn belled nad yw'n fwy na'r amcangyfrif gorau o gyfanswm cost y gwaith.

2.56 Mae paragraff 12(6) o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau yn nodi sut i gyfrifo uchafswm gwerth y bond methu â chyflawni ac rydym yn ystyried a fyddai datblygwyr a chyrff cymeradwyo SuDS yn gweld canllawiau o'r fath yn ddefnyddiol.

2.57 Pa un a oes gan y corff cymeradwyo SuDS ddyletswydd i fabwysiadu'r system ddraenio ai peidio, os yw'r datblygwr yn cwblhau'r gwaith yn unol â'r dyluniad a gymeradwywyd, rhaid dychwelyd y bond methu â chyflawni i'r datblygwr.

2.58 Rydym yn cynnig y dylai darpariaeth yn ymwneud â rhyddhau bondiau methu â chyflawni yn ddiweddarach gael ei gwneud mewn rheoliadau.

- Rydym yn awgrymu y dylai'r corff cymeradwyo SuDS ddychwelyd y bond cyn pen 28 diwrnod ar ôl rhoi hysbysiad o benderfyniad i fabwysiadu'r system ddraenio, ac
- os nad yw'r system ddraenio'n cael ei hadeiladu fel y cafodd ei chymeradwyo a bod angen i'r corff cymeradwyo SuDS ddefnyddio'r bond methu â chyflawni, rydym yn cynnig bod yn rhaid dychwelyd unrhyw swm sydd ar ôl i'r datblygwr cyn pen 28 diwrnod ar ôl cwblhau'r gwaith y mae'r corff cymeradwyo SuDS yn credu bod angen ei wneud er mwyn gwneud i'r system weithredu yn unol â'r Safonau Cenedlaethol.

Cwestiwn 19: Nid ydym wedi cynnig canllawiau ar faint bondiau methu â chyflawni. A ydych yn meddwl bod angen canllawiau ar gyfer cyfrifo'r swm sydd ei angen ar gyfer bond methu â chyflawni? Rhwng resymau os gwelwch yn dda.

Gorfodaeth

2.59 Mae paragraff 14 o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion ar gyfer gorfodi'r angen am gymeradwyaeth. Bydd ein cynigion ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn destun ymgynghoriad yn y dyfodol.

Apeliadau

2.60 Mae paragraff 25 o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fydd yn rhoi hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau yn ymwneud â chymeradwyo a wneir gan y corff cymeradwyo SuDS a'r ddyletswydd i fabwysiadu. Bydd ein cynigion ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn destun ymgynghoriad yn y dyfodol.

RHAN 3: Opsiynau ar gyfer cynnal a chadw SuDS a'r opsiynau ariannu a allai eu cefnogi

Trefniadau cynnal a chadw: trosolwg

- 3.1 Roedd adroddiad EPC yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau, pan fydd Atodlen 3 yn cael ei chychwyn, bod yna hefyd broses glir a hyblyg yn ymwneud â chyfrifoldebau cynnal a chadw yn yr hirdymor, yn cael eu cefnogi gan ffrwd incwm reolaidd a chynaliadwy er mwyn sicrhau cyllid diogel.
- 3.2 Argymhellir bod angen modelau ariannu newydd o bosibl er mwyn gwireddu holl fanteision SuDS. Argymhellir hefyd y dylai'r rhain fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth lawnach o bwy sy'n cael budd o'r SuDS, fel bod modd sylweddoli cymhellion ar gyfer trin SuDS fel asedau yn hytrach na rhwymedigaethau. Mae'r dull newydd hwn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod nodweddion SuDS yn cael eu cynnal a'u cadw'n llwyddiannus drwy gydol oes y datblygiad.
- 3.3 Roedd yr adroddiad yn dod i'r casgliad bod manteision hirdymor real a sylweddol yn gysylltiedig â defnyddio SuDS wedi'u tirlunio. Mae manteision SuDS yn llawer mwy na manteision systemau draenio confensiynol tebyg. Yn fwyaf arbennig, mae'r manteision cymdeithasol ehangach sy'n gysylltiedig ag iechyd, amwynder a manteision amgylcheddol, gan gynnwys lleihau perygl llifogydd a gwella ansawdd dŵr, yn fwy arwyddocaol.
- 3.4 Yn ogystal, mae tystiolaeth gref sy'n dangos bod costau gweithredu a chynnal a chadw cyffredinol SuDS wedi'u tirlunio sydd o ansawdd da ac sydd wedi'u cynllunio'n dda yn y rhan fwyaf o achosion yn is na'r costau ar gyfer datrysiadau confensiynol. Mae hyn yn ychwanegol at ganfyddiadau fod costau cyfalaf SuDS bob amser yn llai na chostau cyfalaf datrysiadau confensiynol, ac mae hynny'n golygu ar gyfartaledd y gallai defnyddio SuDS arbed dros £9,000 am bob cartref newydd mewn costau cyfalaf yng Nghymru.
- 3.5 Credwn fod gweithio yn y bartneriaeth ehangaf posibl yn cynnig y potensial mwyaf i sicrhau'r budd mwyaf ac ysgogi'r cyllid sydd ei angen. Rydym yn awgrymu mai'r datblygwyr sydd yn y sefyllfa orau i negodi â'r corff cymeradwyo SuDS a'r gymuned er mwyn cytuno ar yr opsiynau mwyaf effeithiol a chynaliadwy ar gyfer gwaith cynnal a chadw wedi'i ariannu ar gyfer y safle i'w rhoi ar waith.
- 3.6 Rydym yn cynnig y gellid gwneud trefniadau cynhwysfawr drwy wneud darpariaethau ar gyfer trefniadau cynnal a chadw a fyddai'n cynnwys y gofynion isod:
 - rhaid i'r datblygwr gyflwyno cynllun cynnal a chadw a ddylai fod ynghlwm wrth y cais am gymeradwyaeth gan y corff cymeradwyo SuDS,
 - rhaid i'r cynllun sicrhau bod y SuDS yn cael ei chynnal a'i chadw yn unol â'r Safonau Cenedlaethol drwy gydol oes y datblygiad,

- cyfrifoldeb y datblygwr fydd negodi a chytuno gyda'r corff cymeradwyo SuDS a chymunedau ynglŷn â'r opsiynau cynnal a chadw yn y cynllun a sut y byddant yn cael eu hariannu, a chyfrifoldeb y datblygwr fydd gweithredu'r cynllun.

3.7 Er mwyn bod yn effeithiol rydym yn awgrymu y dylai'r cynllun cynnal a chadw:

- Nodi'n glir pwy fydd yn gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw.
- Sicrhau bod y cyllid ar gyfer cynnal a chadw yn deg i ddeiliaid tai a meddianwyr eiddo.

3.8 Dan baragraff 22 o Atodlen 3 i'r Ddeddf, y corff cymeradwyo SuDS fyddai'n dal yn gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod SuDS sydd wedi cael ei chymeradwyo gan y corff cymeradwyo yn cael ei chynnal a'i chadw yn unol â'r Safonau Cenedlaethol.

Cwestiwn 20: A ydych yn cytuno y dylai cynllun cynnal a chadw gael ei gyflwyno gan y datblygwr gyda'r cais i'r corff cymeradwyo SuDS? A fydd y trefniadau arfaethedig hyn yn sicrhau system draenio cynaliadwy sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n effeithiol? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Opsiyau cynnal a chadw posibl

3.9 Yn ymarferol, bydd angen cyfres o opsiynau cynnal a chadw. Rydym yn cynnig caniatáu i ddatblygwyr sicrhau bod o leiaf un opsiwn ar gael iddynt ym mhob achos a fyddai'n eu galluogi i ddarparu gwaith cynnal a chadw cynaliadwy sy'n cael ei ariannu.

Cwmnïau rheoli gwasanaethau

3.10 Mae Cwmnïau Cynnal a Chadw yn cael eu sefydlu yn aml i reoli manau cyhoeddus ar ddatblygiadau newydd. Gallai cynnal a chadw systemau draenio cynaliadwy fod yn rhan o'u cylch gwaith hwy.

3.11 Dan yr opsiwn hwn, byddai deiliaid tai a meddianwyr eiddo'n talu am gynnal a chadw systemau draenio cynaliadwy fel rhan o'r tâl gwasanaeth blynyddol neu daliadau gwasanaeth cyfatebol ar gyfer manau awyr agored y maent yn eu talu am wasanaethau amrywiol. Bydd angen i ddatblygwyr sicrhau bod unrhyw ofyniad i dalu taliadau gwasanaeth yn orfodol.

3.12 Llwybr ariannu posibl arall yw swm gohiriedig a delir gan y datblygwr i'r Cwmni Cynnal a Chadw. Byddai angen i unrhyw symiau gohiriedig fod yn gyson â'r angen i'r safle fod yn hyfyw yn ei gyfanrwydd. Efallai y byddai modd cyfuno tâl gohiriedig â thâl gwasanaeth rheolaidd.

3.13 Gallai Ymddiriedolaethau Elusennol, gan gynnwys mentrau cymunedol dielw, hefyd wasanaethu fel Cwmnïau Cynnal a Chadw.

Cwmnïau dŵr a charthffosiaeth

- 3.14 Mae gan Gwmnïau Dŵr a Charthffosiaeth ddyletswyddau yn barod. Gallant wneud taliadau sy'n ymwneud â gwasanaethau dŵr ac mae cysylltiad rhwng eu gweithgareddau presennol ac unrhyw drefniadau newydd sy'n ymwneud â rheoli dŵr wyneb o eiddo.
- 3.15 Gall Cwmnïau Dŵr a Charthffosiaeth adeiladu, cynnal a chadw a gweithredu systemau draenio sy'n rhoi llai o bwysau ar y garthffos gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys systemau draenio cynaliadwy. Mae'r sail gyfreithiol wedi'i nodi yn adran 114A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i newidiwyd gan Ddeddf Dŵr 2014).
- 3.16 Pe bai cwmni a datblygwr yn cytuno, gallai'r datblygwr adeiladu (neu gyfrannu tuag at adeiladu) system draenio cynaliadwy y byddai'r Cwmni'n berchen arni yn ddiweddarach. Byddai'r system draenio cynaliadwy'n cael ei chynnwys yng nghynllun codi tâl arferol Cwmni Dŵr a Charthffosiaeth, a byddai'r costau cynnal a chadw'n cael eu hariannu drwy elfen draenio dŵr wyneb biliau dŵr cartrefi. Byddai'r taliadau hyn yn cael eu rheoleiddio gan Ofwat.
- 3.17 Neu gallai Cwmni Dŵr a Charthffosiaeth gynnig ei wasanaeth fel Cwmni Rheoli Gwasanaethau (gweler uchod). Yn yr achos hwn ni fyddai'n ymarfer ei swyddogaeth statudol; ni fyddai'r rhai sy'n talu ei dâl yn talu am y gwasanaethau hynny. Yn hytrach, byddai'r rhai a fyddai'n cael budd o'r gwasanaeth yn talu tâl uniongyrchol ac ni fyddai'r swm yn cael ei reoleiddio gan Ofwat.

Llywodraeth leol

- 3.18 Efallai y bydd rhai awdurdodau lleol yn dymuno bod yn gyfrifol am gynnal a chadw systemau draenio cynaliadwy fel rhan o'u swyddogaeth rheoli manau agored ac amwynderau ehangach a/neu os yw'r system draenio cynaliadwy'n darparu manteision i'r gymuned ehangach.
- 3.19 Dan yr opsiwn hwn, byddai angen i awdurdodau lleol godi tâl er mwyn ariannu eu gweithgareddau cynnal a chadw systemau draenio cynaliadwy.
- 3.20 Mae Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu mecanwaith ar gyfer trosglwyddo SuDS i fod yn rhan o gyfrifoldebau rheoli a chynnal a chadw awdurdodau lleol pan delir swm gohiriedig a / neu pan fydd deiliaid cartrefi'n talu tâl gwasanaeth blynyddol ar gyfer cynnal a chadw SuDS.
- 3.21 Dan yr opsiwn hwn efallai y bydd awdurdodau lleol yn dymuno gweithio mewn partneriaeth, neu drwy gorff cymeradwyo SuDS rhanbarthol, er mwyn sefydlu cwmni rheoli hyd braich a all fasnachu ac y byddai awdurdodau lleol yn dirprwyo gwaith cynnal a chadw SuDS iddo. Neu, gallai awdurdodau lleol is-gontractio gwaith i gwmni rheoli sy'n cael ei weithredu'n breifat.

Unigolion Preifat: perchnogion neu feddianwyr eiddo

- 3.22 Mae'n rhesymol disgwyl i berchnogion/meddianwyr eiddo sy'n cael ei ddraenio gan systemau draenio cynaliadwy, nad ydynt hefyd yn draenio eiddo arall, gynnal a chadw eu system ddraenio eu hunain.
- 3.23 Os yw'r systemau hyn yn syml, ag ychydig iawn o gynnyrch perchenogol os o gwbl, yn hawdd eu cynnal a'u cadw ac yn gwasanaethu ychydig iawn o eiddo, gallai perchenogion yr eiddo hyn hefyd gytuno i gynnal y systemau draenio cynaliadwy ar y cyd.
- 3.24 Byddai angen i'r datblygwr roi cyfarwyddiadau llawn i'r perchennog neu'r perchenogion ynglŷn â chynnal a chadw'r systemau draenio cynaliadwy gan gynnwys y gofynion atgyweirio ac adnewyddu.

Cwestiwn 21: Pa opsiynau cynnal a chadw eraill allai fod yn hyfyw? Rhwch enghreifftiau o'u defnydd os gwelwch yn dda?

Sicrhau bod costau cynnal a chadw'n rhesymol

- 3.25 Bwriadwn sicrhau nad yw costau cynnal a chadw SuDS yn arwain at gynnydd ym miliau cartrefi, neu os ydynt yn cael eu talu ymlaen llaw, yng nghostau cartref newydd o'i gymharu â system ddraenio gonfensiynol.
- 3.26 Mae'r dystiolaeth sydd gennym yn awgrymu bod SuDS at ei gilydd yn rhatach i'w hadeiladu, ac mae'r gwaith o'u cynnal a'u cadw hefyd yn llai costus ar gyfartaledd (neu nid oes angen iddynt fod yn ddrutach) na chost cynnal a chadw system ddraenio gonfensiynol ar hyn o bryd.
- 3.27 Rhoddwyd pwerau i Ofwat, y rheoleiddiwr economaidd ar gyfer y diwydiant dŵr, i fynnu bod Cwmnïau Dŵr a Charthffosiaeth yn adlewyrchu yn eu taliadau gynlluniau lle mae mesurau wedi cael eu sefydlu er mwyn lleihau faint o ddŵr wyneb sy'n mynd i'r garthffos gyhoeddus neu pa mor gyflym y mae hynny'n digwydd (Adran 143B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd gan Adran 16 o Ddeddf Dŵr 2014)). Mae hyn yn golygu ein bod yn disgwyl gweld gostyngiad yn elfen draenio dŵr wyneb biliau dŵr cartrefi yn achos yr aelwydydd hynny sydd â SuDS i reoli eu dŵr wyneb ffo.
- 3.28 Bydd agwedd hyblyg ac agored tuag at y ffordd y bydd gwaith cynnal a chadw SuDS yn cael ei ariannu yn galluogi datblygwyr a chymunedau i ddod o hyd i'r datrysiad gorau i waith cynnal a chadw hirdymor sy'n cael ei ariannu ar gyfer pob safle. Bydd y dull hwn o weithredu hefyd yn sicrhau bod y trefniadau'n dryloyw, yn cynnig gwerth da ac yn dderbyniol i brynwyr cartrefi a'r rhai fydd yn byw ynddynt yn y dyfodol.

Cwestiwn 22: A ydych yn cytuno y byddai'r dull gweithredu sy'n cael ei gynnig yn osgoi cynnydd mewn costau cynnal a chadw i ddeiliaid cartrefi a datblygwyr? Rhwch resymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 23: Pa dystiolaeth sydd gennych o gostau cynnal a chadw disgwylidig?